

Gair Bywyd – Mawrth 2020

Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi. Mae'n egwyddor sy'n crynhoi popeth mae Cyfraith Moses ac ysgrifau'r proffwydi'n ei ddweud. (Mathew 7:12)

Wrth wneud penderfyniadau pwysig mewn bywyd, pa mor aml ydyn ni'n chwilio am “gwmpawd” i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y dewis cywir? Fel Cristnogion, pa mor aml ydyn ni'n holi ein hunain beth yw hanfod neges yr Efengyl, yr allwedd i fynd i mewn i galon Duw a byw fel plant iddo yma, nawr?

Mae'r geiriau hyn gan Iesu'n cynnig ateb clir ac yn hawdd eu deall a'u rhoi ar waith. Maen nhw'n dod o Efengyl Mathew ac yn rhan o'r Bregeth ar y Mynydd sy'n cofnodi gwersi Iesu ar sut i fyw'r bywyd Cristnogol yn llawn. Mae'r datganiad hwn yn crynhoi ei wersi.

Y dyddiau hyn, mae angen negeseuon ystyrlon ond byr ac effeithiol: gallen ni groesawu'r Gair hwn fel trydar gwerthfawr i'w gadw yn ein meddwl drwy'r amser.

Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi. Mae'n egwyddor sy'n crynhoi popeth mae Cyfraith Moses ac ysgrifau'r proffwydi'n ei ddweud.

Er mwyn deall beth i'w wneud i bobl eraill yn well, mae Iesu'n ein gwahodd i'n rhoi ein hunain yn eu hesgidiau; gwnaeth ef hyn pan, o gariad aton ni, y gwisgodd ein natur ddynol.

Os gofynnwn i'n hunain beth fydden ni'n ei ddisgwyl gan ein rhieni, plant, cydweithwyr, gwleidyddion ac arweinwyr ysbrydol, byddwn ni'n sylweddoli y bydden ni'n hoffi: croeso, gwrando, cynhwysiad a chymorth gydag anghenion materol, ond hefyd didwylledd, maddeuant, anogaeth, amynedd, cyngor, arweiniad, addysg... I Iesu, yr agwedd fewnol sy'n hybu gweithredu ymarferol ac sy'n arwain at gyflawni Cyfraith Duw a holl gyfoeth y bywyd ysbrydol.

Y Gair hwn yw'r “Rheol Aur”, gwers fyd-eang sydd wedi'i chynnwys yn y gwahanol ddiwylliannau, crefyddau a thraddodiadau mae'r ddynoliaeth wedi'u datblygu dros amser. Dyma sail yr holl werthoedd dynol dilys sy'n arwain at gyd-fyw'n heddychlon, gyda pherthnasoedd personol a chymdeithasol cyfiawn a chefnogol.

Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi. Mae'n egwyddor sy'n crynhoi popeth mae Cyfraith Moses ac ysgrifau'r proffwydi'n ei ddweud.

Mae'r Gair hwn yn ein hannog i fod yn greadigol ac yn hael, i ddangos arweiniad er lles pawb ac adeiladu pontydd hyd yn oed at bobl nad ydyn ni'n eu cyfrif yn ffrindiau. Dywedodd a gwnaeth Iesu hyn. Mae'r Gair Bywyd hwn yn gofyn i ni fynd y tu hwnt i'n hunain, er mwyn i ni allu bod yn dystion credadwy i'n ffydd.

Anogodd Chiara Lubich ni i wneud hyn pan ysgrifennodd: "Gadewch i ni roi cynnig arni. Mae diwrnod a gaiff ei fyw fel hyn werth oes... Cawn ein llenwi â llawenydd nad ydyn ni wedi'i deimlo o'r blaen... Bydd Duw gyda ni am ei fod gyda'r bobl hynny sy'n caru ... Ambell waith byddwn yn arafu ac yn teimlo'n ddigalon a chawn ein temtio i roi'r gorau iddi... Ond na! Byddwch ddewr! Mae Duw'n rhoi'r gras sydd ei angen arnom ni ac felly gallwn bob amser ddechrau eto. Os byddwn ni'n dal ati byddwn yn gweld y byd o'n cwmpas yn newid yn raddol. Byddwn yn deall bod yr Efengyl yn gwneud bywyd yn ddifyr. Mae'n dod â goleuni i'r byd, yn rhoi blas i'n bodolaeth ac yn cynnwys yr egwyddor ar gyfer datrys pob problem. Ac ni fyddwn ni'n teimlo'r heddwch tan i ni gyfleu ein profiad rhyfeddol i bobl eraill - i ffrindiau sy'n gallu ein deall, i berthnasau, i unrhyw un rydyn ni am rannu gyda nhw. Caiff gobaith ei aileni." ⁱ

Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi. Mae'n egwyddor sy'n crynhoi popeth mae Cyfraith Moses ac ysgrifau'r proffwydi'n ei ddweud.

Ramiro oedd un o'r gweithwyr mwyaf profiadol ar ei dîm. Clywodd fod cydweithwyr newydd ar fin ymuno â nhw yn eu swyddfa.

Gofynnodd iddo'i hun, "Os byddwn i'n dod i'r swyddfa hon y tro cyntaf, beth fyddwn ni'n hoffi ei weld? Beth fyddai'n gwneud i fi deimlo'n gyfforddus?" Dechreuodd greu mwy o le a galw ar ei gydweithwyr i ddod o hyd i ragor o ddesgiau. Gweithion nhw gyda'i gilydd i greu gorsafoedd gwaith newydd croesawgar ac yna pan gyrhaeddodd y bobl newydd, roedd yr awyrgylch yn gadarnhaol gyda chymuned waith unedig.

Letizia Magri

ⁱ Chiara Lubich, Gair Bywyd, Ebrill 1978